# Creadigrwydd

**Deilliant 1**

Caiff ansawdd ein gwaith artistig ei gydnabod, ei werthfawrogi a'i barchu ledled Cymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol oherwydd ei arloesedd a'i ragoriaeth

Cynnal 24 perfformiad o BAMBOO yng Nghymru.

Trefnwyd 25 perfformiad o BAMBOO mewn 9 lleoliad yng Nghymru.

Ar unrhyw un adeg, mae gan 50% o gast SABOTAGE hunaniaeth amrywiol [diverse identity] (o leiaf un nodwedd warchodedig).
Mae gan 50% o gast BAMBOO hunaniaeth amrywiol.

Mae gan 70% o gast SABOTAGE a 57% o gast BAMBOO hunaniaeth amrywiol.

**Deilliant 2**

Dal i ysbrydoli a herio eraill, gosod safonau, meithrin ein henw da a chynyddu ein cyrhaeddiad wrth dorri tir newydd yn sector y syrcas gyfoes, trwy greu gwaith arloesol sy'n dathlu ein hamrywiaeth ac sy'n berthnasol, yn fforddiadwy ac yn hygyrch.

Cynnal digwyddiad mawr yn Nwyrain Caerdydd yn yr haf, gan ymgysylltu â ~3000 o bobl yr ardal.

Cynnal rhaglen ymgysylltu yn y cyfnod yn arwain at y digwyddiad haf, gan ymgysylltu â 1000 o bobl yr ardal.

Llwyddwyd i ymgysylltu â ~4,000 o bobl yr ardal yn ystod diwrnod ein digwyddiad haf, Gŵyl Parc Fest. Mae hyn tua 10% yn fwy nag yr oedd yn Gwledd Parc Feast yn 2023.

Yn y cyfnod yn arwain at y digwyddiad, fe wnaethom ni gynnal gweithdai a sesiynau creadigol ar thema 'bambŵ' gan gyrraedd tua 2,000 o bobl yr ardal .

**Deilliant 3**

Defnyddiwn rym dulliau artistig i ysgogi ymddygiad cyfrifol a newidiadau trawsffurfiol mewn cymdeithas: gan ymateb mewn ffordd greadigol i broblemau sy'n galw am sylw yn y gymdeithas.

Cynnal 160 o weithdai y gellir eu mynychu'n ddi-dâl bob mis o fis Mawrth i fis Medi 2024, gan ddenu ~1575 o bobl yr ardal.

Fe wnaethom ni gynnig 265 o weithdai di-dâl o fis Mawrth i fis Medi 2024 a denu 4,990 o bobl yr ardal.

Cynnal ymarferion a pherfformiadau yn Lusaka. Darlledu premiere y ffilm ar lein. Cynnal cynhadledd undydd mewn partneriaeth â Cynghrair Diwylliant Cymru (WCA) yng Nghaerdydd.

Bu oedi y tu hwnt i reolaeth NFS wrth anelu at y nod. Oherwydd y brigiad ofnadwy o golera yn Zambia ddechrau 2024, bu'n rhaid i ni ohirio Artist as Activist (mewn cydweithrediad â Circus Zambia). I'w adolygu ym mis Mawrth 25.

# Ehangu Ymgysylltiad

| Deilliant | Targed | Cynnydd |
| --- | --- | --- |
| **Deilliant1**<br>Sicrhawn fwy o amrywiaeth ymhlith ein cynulleidfaoedd a'n cyfranogwyr trwy ddal ein hunain i gyfrif, a gweithio'n egnïol ac yn barhaus i ddileu rhwystrau i ymgysylltu. Cydnabyddwn fod y rhwystrau hyn yn gymhleth, yn groestoriadol ac yn aml-haenog (gan gynnwys rhwystrau ariannol, agweddol, diwylliannol, ieithyddol, crefyddol, daearyddol. | Cynnal 160 o weithdai y gellir eu mynychu'n ddi-dâl bob mis o fis Mawrth i fis Medi 2024, gan ymgysylltu a ~1575 o bobl yr ardal. | Fel rhan o Bartneriaeth y Filltir Sgwâr, mae NoFitState wedi cynnal 265 o weithdai di-dâl ac wedi denu 4,990 o bobl yr ardal leol. |
| | Cynnal 24 o berfformiadau o BAMBOO yng Nghymru. | Trefnwyd 25 perfformiad o BAMBOO mewn 9 lleoliad yng Nghymru. |
| | Cynnal 30 o sesiynau Syrcas Amrywiol erbyn mis Medi 2024. Codi arian er mwyn parhau â'r ddarpariaeth. | Cynhaliwyd 30 o sesiynau erbyn mis Medi 2024 ac rydym wedi codi arian er mwyn parhau â'r ddarpariaeth o fis Medi ymlaen. |
| **Deilliant 2**<br>Gwnawn sector y syrcas yn fwy teg trwy ddeall braint a gosod llwybrau – o ehangu ymgysylltiad i feithrin talent – gan greu cyfleoedd i artistiaid newydd a gweithlu mwy amrywiol. | Cefnogi 3 chwmni/10 artist unigol yn 24/25. | Cefnogwyd 3 chwmni/16 artist unigol trwy weithdai a sesiynau mentora ar-lein a wyneb yn wyneb. |
| | Cyflogi 3 Cefnogwr Cymunedol tan fis Medi 2024. | Cyflogwyd 3 Cefnogwr Cymunedol tan haf 2024 pan symudodd un o'n Cefnogwyr Cymunedol ymlaen ar ôl llwyddo i gael swydd amser llawn. |
| | Darparu 26 o gyfleoedd i wirfoddolwyr. | Bu 35 o bobl o'r gymuned leol yn gwirfoddoli gyda ni. |
| **Deilliant 3**<br>Sicrhawn fod cyd-greu'n rhan o bopeth a wnawn, gan arwain at waith perthnasol, fforddiadwy a hygyrch sy'n ymateb i anghenion a gofynion y cymunedau a wasanaethwn. | Cynnal 160 o weithdai y gellir eu mynychu'n ddi-dâl bob mis o fis Mawrth i fis Medi 2024, gan ymgysylltu â ~1575 o bobl yr ardal. | Fel rhan o bartneriaeth y Filltir Sgwâr, mae NoFit State wedi cynnal 265 o weithdai di-dâl hyd yma yn 2024/25. Mae hyn wedi denu 4,990 o bobl leol. |
| | Cynnal 18 o sesiynau Croeso Cymunedol o fis Ebrill i fis Gorffennaf 2024. | Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2024, rydym wedi cynnal 17 wythnos o Croeso Cymunedol. Sicrhawyd cyllid hyd at fis Mawrth 2025. |

# Yr Iaith Gymraeg

**Deilliant 1**

**Codwn ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ymhlith ein cynulleidfaoedd yng Nghymru, Prydain a thramor trwy ei defnyddio a'i chyflwyno'n rheolaidd ochr yn ochr ag ieithoedd eraill yn ein gwaith.**

**Sicrhau bod yr holl arwyddion ar y safleoedd, yr holl farchnata a'r holl gyhoeddiadau a recordiwyd ymlaen llaw ar gyfer y cyhoedd yn gwbl ddwyieithog. Bydd hyn yn codi proffil yr iaith Gymraeg / normaleiddio'r defnydd ohoni. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â chyflwynwyr/ lleoliadau/partneriaid i sicrhau bod y Swyddfa Docynnau yn gwbl ddwyieithog.**

**Roedd yr holl arwyddion, yr holl farchnata a'r holl gyhoeddiadau a recordiwyd ymlaen llaw ar gyfer y cyhoedd yn gwbl ddwyieithog, gan godi proffil yr iaith Gymraeg. Mae llawer o'n partneriaid cyflwyno, ond nid pob un, yn cynnig Swyddfa Docynnau hollol ddwyieithog. Byddwn yn dal i fonitro'r sefyllfa ac yn ceisio sicrhau bod pob un yn gwneud hynny cyn gynted â phosib.**

**Cynnwys gweithgareddau Cymraeg yn ein Rhaglen Gymunedol yng Nghymru.**

**Cafodd gweithgareddau Cymraeg eu cynnwys yn ein Rhaglen Gymunedol.**

**Deilliant 2**

**Codwn ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ymhlith ein cynulleidfaoedd yng Nghymru, Prydain a thramor trwy ei defnyddio a'i chyflwyno'n rheolaidd ochr yn ochr ag ieithoedd eraill yn ein gwaith.**

**-Cynnal gwefan ddwyieithog.**
**- Yr holl deunydd marchnata ar gyfer gweithgareddau yng Nghymru i fod yn hollol ddwyieithog.**
**- Rhywun sy'n siarad Cymraeg i ymuno â'r tîm marchnata.**

**Mae gennym wefan gwbl ddwyieithog a deunyddiau marchnata amlieithog ar gyfer yr holl weithgarwch yng Nghymru.**

**Cynnwys yr iaith Gymraeg yn rhaglen greadigol gweithgarwch haf y Filltir Sgwâr 2024.**

**Cafodd mwy o Gymraeg ei gynnwys yn ein rhaglen weithgareddau yn 2024 nag yn y blynyddoedd cynt.**

**Deilliant 3**

**Cydnabyddwn mai dwyieithrwydd/ amlieieithrwydd yw'r norm yn y rhan fwyaf o'r byd a dathlwn amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol yn ein gwaith; yn ogystal â gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ym mhob rhan o'n cwmni.**

**Cydweithio â'n partneriaid Oasis a Tros Gynnal Plant Cymru i gyfeirio ffoaduriaid a cheiswyr lloches i sesiynau dysgu Cymraeg. Meithrin partneriaeth newydd ag Ysgol Glan Morfa.**

**Rydym wedi bod yn cydweithio ag Oasis i helpu i gyfeirio ffoaduriaid a cheiswyr lloches i sesiynau dysgu Cymraeg. Rydym yn cynnal sesiynau syrcas wythnosol yn Gymraeg yn Ysgol Glan Morfa.**

**Bydd pob cynhyrchiad a pherfformiad cymunedol sy'n cynnwys y gair llafar yn dathlu amrywiaeth ieithyddol y cast a'r gymuned.**

**Roedd SABOTAGE a Gŵyl Parc Fest yn cynnwys yr ieithoedd a gaiff eu siarad yn fwyaf cyffredin ymhlith y cast a'r gymuned.**

## Yr Iaith Gymraeg

Buddsoddi i hyfforddi ac uwchsgilio staff y dderbynfa, marchnata a'r swyddfa docynnau i'w helpu i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Datblygu'r gallu i ddarparu staff dwyieithog/amlieithog mewn swyddi sy'n wynebu'r cyhoedd.

Mae pob un o'r staff a'r hyfforddwyr yn cael cynnig y cyfle i ddysgu Cymraeg trwy Y Gymraeg yn y Gweithle. Mae 8 aelod o'r staff wedi derbyn y cynnig.

# Cyfiawnder Hinsawdd

**Deilliant 1**

**Sbardunwn newid yn sector y syrcas mewn ffordd ddeinamig ac ysbrydoledig wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd – gan gynnig dulliau cadarn, cyfrifol a llawn dychymyg o gynhyrchu celfyddydau perfformio cynaliadwy a modelu rhagor o weithgareddau cynaliadwy.**

Ar gyfer digwyddiad cymunedol y Filltir Sgwâr yn haf 2024, sicrhau bod pethau wedi'u hailgylchu yn cael eu defnyddio, rheoli gwastraff yn dda, defnyddio bwyd o blanhigion yn bennaf. Defnyddio bambŵ fel deunydd cynaliadwy.

Canolbwynt creadigol rhaglen yr haf oedd bambŵ a deunyddiau cynaliadwy.

Dim teithio pellter mawr dramor, defnyddio pethau wedi'u hailgylchu, rheoli gwastraff yn dda, defnyddio bwyd o blanhigion yn bennaf ar daith. Casglu data am faint o danwydd a ddefnyddir wrth fynd â'r Big Top ar daith, fel y gellir gwneud dadansoddiad cymharol ac effeithiol a llunio barn wybodus am fuddsoddi mewn systemau pecynnau batri yn gynnar yn 2025.

Treialwyd defnyddio batris i geisio llosgi llai o danwydd ar daith SABOTAGE. Defnyddiwyd 50% yn llai o danwydd ar y daith. Defnyddiwyd bwyd o blanhigion yn bennaf, cafwyd gwaharddiad llwyr ar blastig untro, defnyddiwyd pethau wedi'u hailgylchu a gweithredwyd polisïau ailgylchu cadarn ar hyd y daith. Ni fydd teithiau rhyngwladol pellter mawr yn ystod y flwyddyn.

Archwiliad ynni cyfredol ar gyfer adeilad Four Elms. Cael ffan ddadhaenu nwy ac ôl-osod paneli solar:

- Codi arian i dalu gweddill y gost
- Ar ôl hynny, comisiynu'r gwaith

Sicrhawyd yr holl arian ar gyfer ôl-osod paneli solar a chael ffan ddadhaenu nwy yn Four Elms.

**Deilliant 2**

**Cydnabyddwn fod trefedigaethedd ac imperialaeth yn gysylltiedig â chyfiawnder hinsawdd ac yn cael effaith hirdymor arno. Defnyddiwn ddulliau holistig i ymateb i'r anfanteision strwythurol a chroestoriadol sy'n deillio o hynny – yn cynnwys cymryd camau gwrth-hiliol a gwrth-ableddol a chwalu llawer o rwystrau sy'n atal ymgysylltu.**

-Sicrhau y cydymffurfir â'r polisïau a mynd ati i osod -targedau
- Adolygu'r holl bolisïau a'u diweddaru'n rheolaidd ar lefel y bwrdd

Polisïau cadarn yn eu lle ac yn cael eu gweithredu.

# Meithrin Talent

**Deilliant 1**

**Datblygwn weithlu hynod ymroddedig, hyderus ac amrywiol gan greu amgylchedd gwaith sy'n gynhwysol, yn groesawus ac yn gefnogol i bawb yn ein sefydliad, yn ogystal â sector y syrcas yn ehangach.**

-Sicrhau bod o leiaf gymaint o amrywiaeth (diversity) ag yn awr ymhlith aelodau'r bwrdd.
- Monitro amrywiaeth ymgeiswyr am bob swydd newydd a'r rhai sy'n cyrraedd y rhestr fer.
- Monitro amrywiaeth y bwrdd a'r staff trwy gynnal arolygon dienw.
- Cynnal yr un niferoedd fel llinellau sylfaen (gweler uchod) ac ail-lenwi swyddi gweigion (os yw'n berthnasol) gan gadw egwyddor amrywiaeth mewn golwg.

Rydym wedi llwyddo i gynnal amrywiaeth (diversity) y cwmni ar bob lefel ac rydym yn monitro amrywiaeth wrth recriwtio.

Parhau â'n hymrwymiad i fod yn Gyflogwr Cyflog Byw cydnabyddedig yn 2023/24,er gwaethaf y pwysau ariannol.

Rydym yn cyrraedd y targed

**Deilliant 2**

**Rydym yn datblygu, yn uwchsgilio ac yn grymuso'r genhedlaeth nesaf o weithwyr syrcas proffesiynol ysbrydoledig (perfformwyr, criw, gweithwyr creadigol, staff), trwy ddarparu llwybrau sy'n arwain o ymgysylltu i ddatblygu talent.**

- 50% o gast SABOTAGE o gefndir amrywiol (diverse background).
- Dros 50% o'r staff o gefndir amrywiol (yn cynnwys pobl o gefndir y mwyafrif byd-eang, pobl sy'n niwro-amrywiol, LHDTC+, mewnfudwyr, pobl o gefndir incwm isel, rhieni sengl).
- Parhau i fyfyrio'n fewnol ar effaith y Pentref Syrcas ar y sector ac ystyried tybed a gâi proses greadigol wahanol ar gyfer cynhyrchiad teithiol nesaf y Big Top effaith fwy trawsnewidiol.

Rydym yn llwyddo i gyrraedd y targed.

Roedd y rhai a gymerodd ran yn y Pentref Syrcas yn dod o gefndiroedd amrywiol ond nid yw hyn wedi cael effaith ar amrywiaeth y sector cyfan (er bod NFS wedi cyrraedd ei dargedau ei hunan). Treialu defnyddio labs yn y broses recriwtio er mwyn ehangu cyfleoedd a thorri'r cylch

Cefnogi 3 chwmni / 10 artist unigol

Llwyddwyd i ragori ar y targed

## Meithrin Talent

**Deilliant 3**

Rydym yn arwain y ffordd yn y sector trwy fod yn gwmni syrcas gyfoes y mae pobl o gefndiroedd amrywiol yn ymddiried ynddo ac yn ei chael yn hawdd siarad ag ef. Rydym yn adnabyddus am fod yn deg wrth weithio gydag artistiaid, cymunedau a phartneriaid.

Mae gennym safonau uchel wrth weithio mewn partneriaeth. Bob tro y gwelwn rywun yn gweithio neu'n ymddwyn mewn ffordd sy'n tynnu oddi ar rywun arall, yn cymryd mantais neu'n annheg, rydym yn nodi hynny, yn tynnu sylw ato ac yn ceisio sicrhau nad yw'n digwydd eto.

Dal ymlaen i fod yn Gyflogwr Cyflog Byw, cynnig trefn weithio hyblyg a chynnal diwylliant gweithio cynhwysol, heb hierarchaeth.
100% o'r staff i gymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddi a dysgu, er gwaetha'r pwysau ariannol.

Rhagorwyd ar bob targed.

CoParhau i weithredu'r polisïau a'r arferion gweithio bob amser.

Mae'r targedau'n cael eu cyrraedd.

## Trawsnewid

**Deilliant 1**

**Rydym yn ysbrydoli eraill trwy osod safonau uchel i ni'n hunain, ein partneriaid a'r rhai rydym yn cydweithio â nhw a chawn ein cydnabod fel arloeswyr yn sector y syrcas gyfoes, gan baratoi'r ffordd i eraill ein dilyn.**

-Gweithredu'r arferion uchod a chadw at y polisïau trwy gydol y flwyddyn.
-Cynnal o leiaf un cyfarfod o'r holl staff/bwrdd / diwrnod cynllunio.

Cyfarfod o'r holl staff/bwrdd i'w gynnal yn y gwanwyn 2025.

- Dal at yr arferion uchod.
- Sicrhau mwy o eglurder am gyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch yn nisgrifiadau swyddi diwygiedig y Tîm Cymunedol.
- Yn 2024/25, datblygu polisi cadarn ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau critigol, i'w gymeradwyo gan y bwrdd.

Cyrhaeddwyd pob targed.
Cymeradwywyd y polisi adrodd am ddigwyddiadau critigol ac mae'n cael ei weithredu.

- Dal at yr arferion a'r polisïau uchod.
- Yn 2024/25, datblygu polisi cadarn ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau critigol, wedi'i gymeradwyo gan y bwrdd.
- Trefnu i'r bwrdd adolygu cofrestr risg y sefydliad bob chwarter yn lle pob blwyddyn.

Cyrhaeddwyd pob targed.

Dal i sicrhau incwm o wahanol ffynonellau.

Cyrhaeddwyd pob targed.

# Trawsnewid

**Deilliant 2**

**Rydym yn deall ansawdd ein gwaith a’r effaith a gaiff ar y sector a’r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu ac rydym yn herio ein hunain ac yn ein dal ein hunain i gyfrif yn barhaus er mwyn arloesi a gwella ym mhob rhan o’n gwaith.**

**Gwella ym mhob maes**

-Cadw at y ffordd uchod o weithio.
-Ymdrechu i gynnal diwylliant o ddysgu yn y sefydiad.
-Dal i gynnal cyfarfod misol grŵp llywio Milltir Sgwâr tan fis Medi 2024, a dal i wneud hynny gyda cheisiadau newydd.
-Cyfarfodydd misol y tîm dysgu cymunedol i fyfyrio ar yr adborth a chynnwys dysgu parhaus.

Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd a drefnwyd.

Cymerir cofnodion ym mhob cyfarfod a'u dosbarthu i'r rhai oedd yn bresennol .

-Dal i wneud yr uchod trwy'r flwyddyn.
-Datblygu offeryn newydd i asesu effaith ER yn seiliedig ar ddata. i helpu wrth wneud penderfyniadau buddsoddi.

Cyrhaeddwyd pob targed.

Cafodd y systemau dadansoddi data am gynulleidfaoedd eu gwella.

Offerynnau newydd i asesu effaith ER yn cael eu datblygu.